



Gweithgareddau Dyddiol

Rhwng 15 i 20 munud y dydd o bosib. (Unrhyw amser sydd yn gyfleus i'r teulu)

Dewiswch 1 o bob colofn bob dydd (27/04/2020 - 08/05/2020)



Iechyd a Lles	Llafaredd a Gwrando	Darllen	Mathemateg	Ysgrifennu	Creadigol
<p>Ewch am dro yn lleol. Beth ydych chi yn ei weld, clywed ac aroglï?</p>	<p>Gwylïo rhaglen i blant ar S4C e.e. Cyw, Deian a Loli a.y.y.b</p>	<p>Darllen llyfr neu gylchgrawn Cymraeg yn annibynol.</p>	<p>Ymarfer tablau ar TT Rockstars neu J2Blast.</p>	<p>Creu rhestr o bethau i wneud wythnos yma.</p>	<p>Coginio - gwnewch eich brecwast, brechdan neu gacen - cofiwch dacluso a golchi llestri wedyn.</p>
<p>Gwnewch neu ysgrifennwch rywbeth i godi calon rhywun sydd yn hunan ynysu, gall fod yn gerdyn, llun, neges syml neu fideo.</p>	<p>Gwrando ar gerddoriaeth artist/band yr wythnos.</p>	<p>Darllenwch stori allan yn uchel i'ch brawd / chwaer / mam / dad / anifail.</p>	<p>Dweud faint o'r gloch i'r funud agosaf. Gallwch wneud llun cloc ac yna rhoi bysedd ar y cloc ac ysgrifennu'r amser wrth ei ochr. (Munudau ydy'r bys hir, oriau ydy'r bys byr.)</p>	<p>Ymarfer Sillafu-geiriau aml ddefnydd.</p>	<p>Adeiladu rhywbeth o'ch dewis gan ddefnyddio blociau, lego, k'nex ac ati.</p>
<p>Gwnewch neu ysgrifennwch rywbeth i godi calon rhywun sydd yn hunan ynysu, gall fod yn gerdyn, llun, neges syml neu fideo.</p>	<p>Cystyllu gyda aelodau o'r teulu, ffrind neu athrawon trwy neges destun, galwad ffon, Skype, Facetime neu e-bost. Siaradwch am beth ydych wedi bod yn ei wneud.</p>	<p>Darllen gwybodaeth oddi ar y wê a nodi beth ydych wedi dysgu.</p>	<p>Creu 5 cwestiwn (Adio, tynnu, lluosïo neu rhannu) ac atebwch y cwestiwn. Yna gwiriwch eich ateb gyda chyfrifiannell neu weithred gwthdro.</p>	<p>Cadw dyddiadur dyddiol - cofio atalnodi kung fu (prif llythren ar ddechrau brawddeg ac atalnodi llawn ar ddiwedd brawddeg.</p>	<p>Beth allwch chi ei wneud allan o ddeunyddiau ailgylchu?</p>
<p>Cymryd rhan yn ymarfer corff dyddiol gyda Joe Wicks ar YouTube .</p>	<p>Gwrando ar stori yn cael ei ddarllen ar y wê neu gan riant.</p>	<p>Darllen llyfr neu gylchgrawn Saesneg yn annibynol.</p>	<p>Tynnwch lun o'ch hoff gymeriad o stori. Ysgrifennwch ddisgrifiad o bwy ydyn nhw a'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu amdanynt.</p>	<p>Ymarfer eich llawysgrifen a/neu ffurfio llythrennau a rhifau yn gywir.</p>	<p>Lluniadu - ydych chi am ddefnyddio pensil, paent neu bensiliau lliw?</p>
<p>Creu rhestr o'r pethau yr wyf yn ddiolchgar amdanynt.</p>	<p>Creu fideo o rhywbeth rydych yn ei wneud gan siarad amdano. Yna rhannwch eich fideo gyda'ch athro/athrawes.</p>	<p>Creu poster i berswadio eraill i ddarllen eich hoff lyfr.</p>	<p>Dewiswch rif, yna cyfrifwch i fyny neu lawr fesul 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 100.</p>	<p>Cymryd rhan mewn sesiwn 'Tric a Chlic'.</p>	<p>Gwnewch fap o'ch pentref, gan gynnwys strydoedd, tai, ysgol a pharc.</p>
<p>Creu dawns / symudiad gymnasteg a'i ffilmio.</p>	<p>Darganfod fideo sydd yn eich dysgu i wneud rhywbeth e.e. Clymu lasys esgidau neu sut i pobi cacen? - Dysgwch rhywbeth newydd.</p>	<p>Rhowch farc allan o 10 am lyfr rydych wedi darllen ac esbonio pam,</p>	<p>Chwarae gemau bwrdd megis 'Snake and Ladders.</p>	<p>Ysgrifennwch gerdd am eich diwrnod.</p>	<p>Pa anifeiliaid allwch chi eu gwneud gan ddefnyddio dail, pren, glaswellt ac ati.</p>
<p>Beth am sesiwn Ymarfer Corff ar y trampolîn neu ffon pogo?</p>	<p>Trafodaeth Teulu: A yw cael mwy o bethau yn ein gwneud yn hapusach?</p>		<p>Coginio rhyseitiau - mesurwch yn gywir gan ddefnyddio gram a dilynwch y cyfarwyddiadau.</p>	<p>Creu gwahoddiad neu boster i ddigwyddiad arbennig yn eich tŷ ar gyfer aelodau o'ch cartref e.e. Noson Sinema, Noson Bingo, Parti Pitsa ac ati.</p>	<p>Llenwch fwcad gyda dŵr, yna casglwch wahanol wrthrychau yn eich tŷ ac arbrowfch i weld os ydynt yn suddo neu'n arnofio yn y dŵr.</p>
<p>Creu cwrs rhwystrau a gadael i'ch teulu roi gynnig arno. Pwy fydd y cyflymaf i gwblhau'r cwrs?</p>			<p>Chwarae siop, defnyddiwch arian i dalu am eitemau yn ystod y dydd a chyfrifo newid.</p>		